# DINESYDD

## MAI

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1983

RHIF 96

# BROLIO!

Enillodd Y DINESYDD yr ail wobr yng nghystadleuaeth Radio Cymru. Teitl ein rhaglen, fe gofiwch, oedd Dewch am Drip. Y beirniaid oedd Meirion Edwards a Hywel Gwynfryn ac yn eu tyb hwy eitem yn ein rhaglen ni oedd eitem orau y gystadleuaeth i gyd. Cyhoeddwn y parodi yn y rhifyn hwn. Fe'i canwyd gan Barti'r Winllan. Mae'r geiriau gan Cen Williams ac ef hefyd drefnydd y rhaglen ar ein rhan. Diolch unwaith eto iddo ef ac i bawb a roddodd o'u hamser yn rhad ac am ddim. Ein diolch hefyd i Bethan Wyn Jones, cynhyrchydd y gyfres ar ran BBC Cymru, am wneud y profiad yn un mor ddifyr a diffwdan.

Gyda'r 'Pais' a'r 'Western Mail',
'Y Times' a 'Barn' fy nhad;
Fe gafodd mam ei Phapur Bro
Y cyntaf yn y wlad.

Rhyw bwtyn bach gan hwn a hon
Yn awr ac yn y man,
Fel yna'n ddigon syml y daeth
Y Papur Bro i'w ran.

Ond rhywfodd fe ddaw cŵyn bob tro
Fe wyddom ni paham,
Atodiad lliw i Gapel Crwys,
A'n capel ni'n cael cam.

Dacw fe Goronwy Jones,
Rhy goch i'n papur ni.
Mae fflat ar werth yn Fairwood Rd.
A job yn H.T.V.

Dosbarth canol, pobol grand
Ydyn ni bob un,
Mae Rhodri'n sgwennu llithiau hir
I neb ond fo ei hun.

Dacw nhw'r dosbarthwyr lu
Yn cario fesul sach,
Mae un ar ddec S4C
A mil yn y tŷ bach.

Un neu ddwy o Jumble Sales
I W.I. Llandaf;
Parti Caws a Gwin i'r Urdd,
A myrdd o Ffeiriau Haf.

O bellter byd rwy'n gweld o hyd
Bentyrrau mawr diri',
A briw i'm bron yw gweld y peils
Ar fwrdd y B.B.C.

Ond creisis ddaeth i'n papur ni
Dim arian yn y god,
Mae bois y banc yn bygwth tranc,
Ai'r diwedd sydd ar ddod?

Hen estron gwyllt o Grant y llew
Yn siarad dim Cymraeg;
Sut all yr hen Drysorydd tlawd
Gael cwsg â'i bwrs yn wag.

---

Gwahoddir aelodau newydd i ymuno â Chôr Tannau Taf, Caerdydd. Os oes gennych ddiddordeb mewn Cerdd Dant, ac am ymuno â chôr merched sy'n cyfarfod yn rheolaidd bob nos Fawrth, yn Festri Minny St. am 8 o'r gloch, ffoniwch am ragor o fanylion gan yr Arweinydd, Carys Williams, Caerdydd 67520.

--------

Carai Pwyllgor Golygyddol y Dinesydd ddiolch i bawb a ymatebodd i gais am gyfraniad i lyfr lloffion a baratowyd ar gyfer cystadleuaeth 'Bwrlwm Bro' yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn. Gobeithiwn inni lwyddo i adlewyrchu bwrlwm ein bro yn y llyfryn. Amser a ddengys!

## CYFARFOD CYHOEDDUS Y DINESYDD

Siomedig iawn oedd nifer y rhai a ddaeth ynghyd nos Wener, Ebrill 22, i Gyfarfod Blynyddol Y DINESYDD. Ys dywedodd Havard Gregory, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli, "Os yw'r nifer sy'n bresennol yn adlewyrchu y cwynion sydd gan Gymry Cymraeg Caerdydd, yna mae'r papur yn llwyddo yn rhyfeddol".

Cafwyd adroddiad cryno ganddo ar hynt a helynt y papur dros y deuddeg mis diwethaf. Cafwyd adroddiadau hefyd gan Emrys Jarman (y Trysorydd) ac Aled Islwyn (ar ran y Panel Golygyddol).

Yn dilyn hyn, cafwyd trafodaeth fywiog ac adeiladol ynglŷn â phwrpas, cyfeiriad ac amcanion Y DINESYDD. Codwyd nifer o gwestiynau diddorol a lleisiwyd llawer barn wahanol. Un pwynt ynglŷn â chynnwys y papur yr oedd pawb yn gytûn ag ef oedd bod angen cryfhau newyddion y papur o wahanol ardaloedd y ddinas ac o'r pentrefi a chymunedau y tu allan i ffiniau'r ddinas sy'n cael eu gwasanaethu gan y papur. Cymerir camau pendant i'r cyfeiriad hwn yn y dyfodol agos.

Ar ddiwedd y noson dewiswyd y Pwyllgor Rheoli am y flwyddyn '83/'4, Havard Gregory (Cadeirydd); Gwyn L. Davies (Is-Gadeirydd); Emrys Jarman (Trysorydd); Nans Couch (Ysgrifennydd); Aled Islwyn (Golygydd); Shân Emlyn Edwards, Mallt Anderson, Cen Williams, Ioan Kidd, John Albert Evans, Raymond Edwards, Rhiannon Gregory, Rhodri Gwyn Jones, Lynn Jones, Michael Jones, Iwan Jones, Elin Wyn Roberts,

# GOLYGYDDOL

Bu hiwmor y Cymro tan y chwyddwydr yn ddiweddar. Gwasg y Lolfa yn honni bod y Cyngor Llyfrau yn sensro perlau Pontshân. Rhaglen anhygoel Y Dinesydd yn ennill yr ail wobr yng nghystadleuaeth BBC Cymru, a Mr. D.O. Jones o Gaer (yn y Wasg Genedlaethol) yn hawlio na ddylai sgit ar un o raglenni Radio Cymru fod wedi ennill. (Serch hynny, honnodd Mr. Jones mai sgit Y Dinesydd oedd y gorau!).

Bu'n amlwg inni ers sbel mai mater dadleuol iawn yw hiwmor y Cymro. Rhaid inni, mae'n ymddangos, ymgecru am hwnnw fel popeth arall. Hyd yn oed yma ym mwrlwm y ddinas, efallai mai'r filltir sgwâr sy'n mynd â bryd y Cymro Cymraeg gan ein gwneud yn ddall i hiwmor eangfrydig ac effeithio hefyd ar ein chwaeth cyffredinol a'n gallu i ymateb (neu i fethu ag ymateb) i'r byd o'n cwmpas.

Wrth adolygu perfformiad o Hedda Gebla y llynedd dywedodd Eigra Lewis Roberts fod plwyfoldeb anaeddfed y gynulleidfa Gymraeg yn ei gwneud hi'n amhosib iddynt deimlo dim ond embaras wyneb yn wyneb â'r fath drasiedi. Dweud go hallt!

Clywsom ddigon o du'r cyfryngau dros y blynyddoedd am bobl sy'n fodlon goddef rhegfeydd a ballu mewn rhaglenni Saesneg ond a fydd ar y ffôn yn syth y funud y cyfyd y cyfryw bethau eu pennau yn yr iaith Gymraeg.

Diddorol fu'r ymgecru diweddar ynglŷn â'r gyfres deledu Newydd Bob Nos - un o raglenni noson gyntaf y sianel newydd ac un o'r cyfresi gorau a ddangoswyd arni hyd yma. Addaswyd y deunydd Americanaidd yn anghyffredin o lwyddiannus. Roedd yr hiwmor yn amrywio o slicrwydd geiriol i slapstic a ffars pur. Cyfuniad cynhyrfus iawn. Roedd y cyfan o ran sgriptio, actio a chyfarwyddo o ansawdd ac mewn arddull nas gwelwyd eu bath yn Gymraeg o'r blaen.

Dylid nodi hefyd fod ymdriniaeth agored a chellweirus y rhaglen hon o faterion fel godineb a bastardiaeth yn llawer iachach nag ensynio slei a pharhaus cyfresi mwy brodorol Gymreig fel Glas y Dorlan a Diar, diar, Doctor!

Ond methodd y gyfres soffisdigedig hon ag ennill cynulleidfa eang na chael canmoliaeth gan feirniaid ein papurau cenedlaethol. Yn y dyfodol, mae'n ymddangos na chawn ragor o raglenni Cymraeg gan gwmniau estron a chollwyd y cyfle i impio elfennau cynhyrfus o wahanol ar ein hiwmor cynhenid Gymreig.

Cyhoeddodd S4C na fydd mwyach yn comisiynu rhaglenni gan gwmniau y tu allan i Gymru. Torri'r got yn ôl y brethyn cartref, mae'n debyg! Peth trist yw gweld drysau dylanwad yn cau. Ac oni fydd yr olygfa o'r ffenestr fechan yn y cornel gymaint â hynny'n dlotach?

Pwy sy'n gwenu nawr?

**********

Does fawr neb yn gwenu tua Neuadd Dewi Sant ychwaith y dyddiau hyn. Mae'r Cyfarwyddwr wedi hel ei bac a'r sôn yw y bydd yno fwy o gyngherddau pop a roc yn y dyfodol ar draul y cyngherddau clasurol.

I fod yn deg, dangoswyd cryn ddychymyg hyd yma yn rhaglen y neuadd. Sêr rhyngwladol a gafwyd i geisio llenwi'r brif neuadd mae'n wir, ond bu artistiaid gwerin Cymraeg megis Heather Jones a'r Hwntws yn diddori pobl dros eu cinio canol dydd a llwyddiannus iawn fu'r datganiadau rhad ac am ddim hynny. Gobeithio y gwelir datblygu pendant yn y cyfeiriad hwnnw ac y gwneir defnydd helaethach o brif adnoddau'r neuadd er budd y cynnyrch cartref. Mae angen apwyntio Cyfarwyddwr newydd a fydd nid yn unig yn gallu trefnu gornestau reslo a Shirley Bassey ond a fydd hefyd yn ddigon hyblyg i drafod ein cynghorwyr lleol ac yn ddigon eangfrydig ei addysg i wybod beth yw eisteddfod.

Cynhaliwyd un eisteddfod yno eisoes - Eisteddfod Gŵyl Ddewi Ysgol Glantaf. (Gobeithiwyd cynnwys adroddiad arni yn rhifyn Ebrill o'r Dinesydd, ond yn anffodus fe gyrhaeddodd yn rhy hwyr). Mae angen ein presenoldeb yno. Ac rydym yn dal i ddisgwyl am yr arwyddion dwyieithog. Ni chrybwyllom ddim ers misoedd er mwyn rhoi cyfle i'r olwynion symud, ond bellach, credwn inni fod yn amyneddgar yn rhy hir.

Pasiodd Cyngor y Ddinas fisoedd yn ôl i godi arwyddion dwyieithog (ac i gael gwared ar iaith o rai arwyddion yn gyfangwbl). Roedd hyn yn dilyn protestiadau nifer o fudiadau Cymraeg y ddinas a'r Dinesydd ei hun. Ble maen nhw, dwedwch? Nid ydym yn barod i aros llawer rhagor.

---

COLEG Y BRIFYSGOL CAERDYDD

DARLITH GOFFA ISLWYN, 1983

DARLITH GYHOEDDUS

AIL 'STORM' ISLWYN

Darlithydd:

Y Parch. Meurig Walters, M.A.

Cadeirydd:

Yr Athro Ceri W. Lewis

Traddodir y ddarlith yn

Adeilad y Dyniaethau
Ystafell 2.1
Coleg y Brifysgol
Cathays
Caerdydd

Ddydd Sadwrn, 7 Mai, 1983, am 3.00 p.m.

Estynnir croeso cynnes i'r cyhoedd a gwahoddir y gynulleidfa i de bwffe ysgafn ar ôl y ddarlith.

---

Dymunwn adferiad buan i Mrs. Hywel D. Roberts a gafodd lawdriniaeth yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs. Mairwen Davies ar golli ei gŵr Wyndham Davies, ac â Gwenda ac Eirlys a'u teuluoedd ar golli tad a thaid annwyl.

---

Carai'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Celfyddydau De-ddwyrain Cymru ac i'r Swyddfa Gymreig am eu cefnogaeth ariannol at gostau'r Dinesydd.

## BYD Y BOL

Braint ac anrhydedd yw cael gwahoddiad i sgrifennu pwt i'r golofn anrhydeddus hon, ond yn wir, ar ôl campwaith mis Mawrth, rwy'n simsanu braidd cyn rhoi pin ar bapur! Rwy'n sylweddoli fodd bynnag mor bwysig yw'r bol i'r byd ac felly bwrw ymlaen amdani i lenwi'r gofod yn y papur hwn a gobeithio codi archwaeth i lenwi'r bol. Wel gan fod fy adolygiad o'r ffilm GANDHI wedi rhoi cymaint o ysbrydoliaeth i'r golofn hon yn rhifyn Mawrth, beth am barhau â'r traddodiad Indiaidd. Tua phythefnos yn ôl fe aeth tri ohonom, fi a dau ffrind, draw i Dreganna ac i westy'r Eurasian ar Heol y Bontfaen, sydd yn ôl pob sôn yn prysur droi'n gyrchfan fwyta i nifer o Gymry Cymraeg y ddinas. Roedd yr awyrgylch yn hamddenol braf ac yn wir roedd mwy o Gymraeg yn cael ei siarad yno'r noson honno nag sydd mewn ambell i dŷ bwyta yng Nghaerfyrddin neu Gaernarfon yn aml! A pheth arall, fe wnaeth y gweinydd ymdrech lew i siarad â ni yn iaith y parti, a dyw hynny ddim yn digwydd ymhobman chwaith.

Ar ôl craffu'n hir ar y fwydlen fe ddechreuais gyda Shami Kebab a chael blas mawr arni hefyd. Fe ddaeth gyda salad yn drimins o'i chwmpas ac roedd hyn ynghyd â'r saws mintys, sydd mewn rhyw fath o iogwrt, yn argoeli'n dda am weddill y wledd. Wedyn yr ail saig - Kurma cyw iâr Eurasaidd wedi'i choginio mewn hufan - bendigedig! Ac i ychwanegu at y pryd gogoneddus yma fe archebais bhajee blodfresych. Yn bersonol dwi ddim yn orhoff o 'curries' poeth ac roedd Kurma yn berffaith yn enwedig o gofio ei bod hi'n eitha hwyr erbyn hyn - tua chanol nos. Yn y gorffennol mae 'curries' wedi pwyso'n drwm ar y bola am oriau wedyn, ond roedd y pryd y noson honno'n wirioneddol flasus heb fod yn rhy fawr. I gwpla - hufen ia. Daeth y cyfan i £4.75 ac roedd yn werth pob dimai - a hynny mewn awyrgylch dymunol gyda gwasanaeth da. Gyda llaw cawsom ni carafe o win rhyngon ni a'i phris yn £3.90.

Dwi ddim yn honni bod yn arbenigwr ar dai bwyta Indiaidd Caerdydd am hanner eiliad, ond byddai'n rhaid chwilio'n ofalus reit i ddod o hyd i westy Indiaidd a fyddai'n curo'r Eurasian. Diolch i'r ffilm GANDHI am ein hysbrydoli i fynd yno!

Ioan Kidd.

Llongyfarchiadau i Ken ac Ann Innes ar ddathlu eu priodas arian yn ystod mis Ebrill.

Cafwyd £25 mewn casgliad ar ddiwedd Gwasanaeth Carolau Adran Bentre'r Urdd yn Rhiwbeina, a chan fod plant Ken Innes wedi bod yn aelodau o'r Adran penderfynwyd cyflwyno'r arian i Ysbyty Harefield ble cafodd Ken ei galon newydd. Cyflwynwyd y siec iddo gan Dafydd Akrill mewn cyfarfod o'r Adran ychydig amser yn ôl.



Yvonne Davies o Ganolfan yr Urdd, Heol Conwy yn cael ei choroni fel y Prif Lenor yn Eisteddfod y Dysgwyr a gynhaliwyd ddiwedd Mawrth yn y Ganolfan.



Llongyfarchiadau i Huw a Heulwen Jones ar enedigaeth Rhys ar y 7fed o Ebrill.

GWYLIAU YN SIR BENFRO

BWTHYN AR OSOD YN NHREFDRAETH. Am fanylion pellach, ffoniwch Caerdydd 754559

## A-PÊL

Ydach chi wedi meddwl o gwbl peth mor anodd ydi eistedd i lawr wrth ddesg, papur o'ch blaen a phin ysgrifennu yn eich llaw, ac yna sgwennu am rhyw bwnc neu'i gilydd sy'n mynd a'ch bryd. Ystyriwch y newydd-iadurwyr yma sy'n dibynnu ar eu bywoliaeth ar y gair ysgrifenedig - os na 'sgwenna nhw, chan' nhw ddim byd chwaith. Mae 'na rai yn sgwennu am y newydd-ion, mae 'na eraill yn sgwennu erthyglau ar wleidyddiaeth, eraill ysywaeth yn sgwennu am y theatr, y sinema, bwytai, moduron a phynciau gwahanol dibendraw, a rhai yn sgwennu am chwaraeon. Ond beth am y rhai sy'n benderfynol o sgwennu am ddim byd - sut mae nhw'n mynd ynglyn â gosod y dasg yn drefnus - wel a deud y gwir does gen i ddim syniad o gwbl beth fyddai'r drefn ond mi wn fy mod i heddiw wedi dod yn go agos at gael dim byd i'w sgwennu.

Dim byd, fe'ch clywaf yn holi - sut ar wyneb daear mae'n bosibl cyrraedd y fath sefyllfa fel nad oes modd darganfod dim byd i'w drin na'i drafod ar dudalennau'r Dinesydd. Oes 'na ddim byd wedi digwydd yn ddiweddar nad oes angen ei wyntyllu yma yng ngwydd poblogaeth y Fro Gosmopolitan Gymraeg? A oes yna broblemau llosg gwleidyddol dyrys yn sgil yr is-etholiad yng Ngogledd-Orllewin Caerdydd nad ydynt yn haeddu sylw? A ydi protestiadau y mudiad gwrth-niwcliar, y CND, ar heolydd Llanishen, yn erbyn dirgelion y ffatri arfau yno ddim yn werth eu trafod? A beth am y cynlluniau bondigrybwyll rheini i wneud sinema trachwantus y 'Prins of Wêls' yn lle mymryn yn fwy sidêt ar gyfer codi awydd y crachach ar draul y gwerinwr? Wel, ydi, mae pob penawd yn haeddu erthygl unigol i'w trafod yn deg, ond gan na wn i ddim mwy na'r hyn yr ydwi wedi ei sgwennu eisoes amdanynt yna erthyglau byr ryfeddol y byddent ynte.

Beth ydi'r broblem ynglyn â sgwennu am fy hoff faes ynta - sef y racsyn Clwb peldroed hwnnw y bum yn cydnabod ac arddel fy aelodaeth ohono ers blynyddoedd? Toes yna ddim problem, yn anffodus toes yna ddim newyddion chwaith. Hynny yw, os nad oes chwant arnoch wybod ychydig o hanes beth fu 'mlaen ar y cae cicio yn ystod y mis diwethaf - 'cae cicio' fyddai Cofis Caernarfon yn galw'r 'Oval' - maes pel-droed y dref gyda llaw.

Mae hanes y tîm cyntaf yn mynd o ddrwg i waeth fel y mae'r tymor yn tynnu tua'i derfyn - yn union fel y bydd y cennin pedr hwythau yn cwympo i'r llawr wedi rhyferthwy Mawrth, a'r petalau sidan melynion yn cael cot hagr o fwd a baw wrth iddynt orwedd yn ddiniwed a didostur yn disgwyl natur i'w hadfedd-iannu. Fe gafwyd un buddug-oliaeth, mae'n wir, ond sioe ysblennydd cyn y storm oedd honno bid siwr.

Ar Fawrth 25ain, gêm yn erbyn Toriaid Rhymni, a'r canlyniad yn dair gôl i ddim yn eu herbyn ar y diwedd. Goliau bendigedig o droed Martin, coes Eynon a gwn Huw Prich a seliodd y fuddugoliaeth. Pleser ydi nodi fod Dewi, am unwaith wedi dal pob pêl a saethwyd ato.

Ar yr un diwrnod, cofnodwyd buddugoliaeth fwyaf y tymor yn hanes yr ail dîm - pum gôl i un i'r Aelwyd trwy gymorth Rhys, Tony a Richard Parsons 2, ynghyd ag un anrheg gan Avenue Hotspur eu hunain.

Cafwyd egwyl dros y Pasg, ond ar Ebrill 8fed, gêm anodd yn erbyn bechgyn Grange FC ar faes Pontcanna. Fel y soniais, gwaethygu, fel potel o finegr a wnaeth y tîm, a cholli o dair gôl i un fu'r hanes. Cic gosb o'r smotyn gwyn o droed Alun Meirion oedd unig ateb y Cymric.

Wythnos yn ddiweddarach, ar Ebrill 15fed, y gwrth-wynebwyr oedd cyn-ddisgyblion Fitzalan, a chafwyd cweir iawn unwaith yn rhagor o dair gôl i un. Roedd y frwydr yn un deg ond y cyd-chwarae ar goll, a'r pel-droed hyd yn oed yn waeth - teimlai pawb bron eu bod 'run oed ar henafgwr Huws wrth droedio'n ôl i'r ystafell newid. Rhodri sgoriodd yr unig gôl.

Colli hefyd yn anffodus fu hanes yr ail dîm, dim ond o drwch y blewyn serch hynny, tair gôl i ddwy yn erbyn Llanrymney Athletic, a'r goliau yn dod o draed Tony a Richard Parsons. Roedd y capten, Alwyn Gruffydd yn absennol ond yr oedd wedi rhoi menthyg ei ddannedd gosod i Mel i wneud iawn am hynny.

Dwy gêm ar ôl i'r tîm cyntaf, un i'r ail dîm - fydd na ddim byd yn oed beldroed i sôn amdano wedi hynny. Beth wnaf bryd hynny tybed?

---

## FFATRI CHWARAEWYR RYGBI ?

Clywsom laweroedd o weithiau am ffatri Max Boyce yn cynhyrchu Maswyr i dîm rygbi Cymru, - wel, gallwn ymfalchio yn ein ffatri bach ni yn Ysgol Gyfun Rhydfelen.

Eleni eto, dewiswyd un o ddisgyblion Rhydfelen i gynrychioli Ysgolion Cymru. Ei enw yw Mark Spiller, ac mae'n chwe troedfedd o daldra ac yn ddeuddeg stôn o bwysau, a gyda'r corff lluniaidd hynny, chwaraeodd fel ail reng i dîm dan bymtheg Ysgolion Uwchradd Cymru yn erbyn yr Alban. Cymru enillodd y gêm o chwe phwynt i bedwar, a rhaid dweud bod cyfraniad Mark yn y llinellau wedi helpu ei wlad yn fawr iawn. Ychydig iawn o feddiant a gafodd yr Alban o'r llinellau - diolch i Mark!

Erbyn hyn, mae Mark wedi ei ddewis i fynd gyda Ysgolion Cymru ar daith i'r Eidal. Dymunwn hwyl dda iddo yn y wlad honno, ac yn y dyfodol hefyd.



Y llynedd, cafodd Philip Hope "gap" o dan bymtheg hefyd, ac eleni, dewiswyd ef yn eilydd i Ysgolion Uwchradd Cymru (dan 16 oed) i chwarae yn erbyn Lloegr ym Mryste ar y 16 Ebrill. Dymunwn lwc dda iddo yntau hefyd.

i dud 9.

# Y SILFF LYFRAU

LLYFR MAWR YR ANIFEILIAID (addas.) Gwasg y Dref Wen, £3.95 CBAC

Perthynas agos i'r Geiriadur Lliwgar yw hwn, llyfr cyfeiriadol sy'n debyg o "roi dibendrawdod o gyfleoedd dysgu gwerthfawr". Mae'n gyfrol hynod o gynhwysfawr, un sy'n dangos dwsinau o anifeiliaid cyfarwydd a dieithr yn eu cynefin. Cawn enwau'r planhigion sy'n gysylltiedig â'u cynefin hefyd. Digon diddorol oedd yr adrannau ar gartrefi, enwau torfol a chreaduriaid chwedlonol ac roedd y tudalennau hyn rywfaint yn haws ar y llygaid gan nad oedd y dwyster manylion arnynt. Tybed a yw'r darllenwyr ifainc yn mynd i golli eu ffordd (a'r broga bach gwyrdd) yn y dorf anifeilaidd?

Gan inni gael cynnig dau enw ar y llwynog/cadno, trueni na fyddem wedi cael yr enw cregyn gleision ochr yn ochr â misglod. A beth oedd y syniad y tu ôl i gerbil a jiraff?

------

Aneirin Jenkins Jones (addas.) AP A'R INJAN DÂN Gwasg Tŷ ar y Graig, £1.50

Bachgen tlawd, unig iawn, o stryd Slebets yn nhref Sblot yw Ap Iolo ap Iago ap Ianto Guto Siôn. Ei unig gwmni yw'r tri chi clwt, Bango, Bongo a Bing. Mae'n wir bod ei gymydog, y Capten Cantwn swel, yn garedig wrth Ap unig, ond ni all wireddu breuddwyd y bychan - sef bod yn un o ddynion y Frigâd Dân, fel y capten. Rhaid i Ap fodloni ar beintio ei fyd bach yn goch tanllyd - nes i dân mawr roi cyfle iddo brofi bod mantais mewn bod yn rhy fach, o bryd i'w gilydd.

Mae'r lluniau yn ddengar iawn, yn llawn lliw a chyffro, a'r ail-adrodd sy'n digwydd yn siwr o apelio at ddarllenwyr a gwrandawyr.

-------

Tegwyn Jones, CADWGAN A LLEIDR CARN YR WYDDFA, Y Lolfa, £3.45

Mae Cadwgan, y llygoden werdd, wedi cael llond bol ar yr Americanwyr sy'n ymweld â'i gartref ar y lleuad gyda'u camerâu, ac yn penderfynu talu ymweliad arall â'i ddau gefnder Cymreig. Mae ei long ofod goch yn ei gludo i'r fferm yn Llŷn, lle caiff hanes hyfdra Syr Brochwel y Mochyn. Dyma'r adyn, bratiog ei iaith, sydd wedi dwyn carn yr Wyddfa er mwyn dal ei bot blodyn! Methiant yw cynllun beiddgar Cadwgan a Sioned y wiwer i ad-ennill y carn; ond mae noson Guto Ffowc ar y trothwy, a'r gwreichion yn hedfan yn uwch na'r disgwyl....

Rydym yn gyfarwydd â gweld ambell fathodyn Cadwgan, a syniad da oedd gwneud posteri lliwgar. Ar y tri phoster diweddaraf ceir rhai o luniau gorau Elwyn Ioan ar gyfer y gyfrol uchod. Eu pris yw 60c yr un.

-------

Megan Lewis (addas.) NAWR GELLWCH CHI DDARLLEN STORIAU O'R BEIBL, Gwasg Gomer, £1.10 yr un

Dau hanesyn o'r Hen Destament - Moses yn yr Hesg; Dafydd a Goliath - a dau o'r Testament Newydd - Geni'r Iesu; Y Plentyn Iesu - a ddaeth i law. Ceir yn y gyfres brint bras ar gyfer y rhai sy'n dechrau darllen ac adran sy'n awgrymu gweithgareddau wedi eu seilio ar yr hyn a ddarllenwyd. Mae'r darluniau yn gyson dda. Dydw i ddim yn siwr bod yr ail-adrodd yn gweithio bob tro, ac mae ambell ymadrodd wedi ei wthio i'r stori er mwyn gwneud hynny, yn lle cyfoethogi'r iaith. Ond yma gyfrolau i'w croesawu gan bob athro Ysgol Sul.

-------

Morfudd Strange (addas.) NAWR GELLWCH CHI DDARLLEN Gwasg Gomer, 95c yr un

Daeth wyth o'r rhain i law - Y Bachgen a Wnaed o Deisen Sinsir, Yr Hugan Fach Goch, Rympelstiltscin, Sinderela, Pws 'Sgidiau Uchel, Y Tri Bwch Gafr Surbwch, Y Cyw Bach Melyn, Eira Wen a'r Saith Corrach. Mae'r llyfrau hyn yn dilyn yr un diwyg â'r gyfres uchod. Teimlaf i'r addaswraig fynd i'r afael â'i gwaith yn fwy llwyddiannus o lawer. Mae yma briod-ddulliau hyfryd - mae'r blaidd drwg yn "taflu'r dillad yn strim-stram-strellach"; bydd blodau'r goedwig yn rhoi "hwb i'r galon"; mae gan Pws 'Sgidiau Uchel "dipyn o waith ar y gweill". Hoffais yr amrywiaeth enwau awgrymwyd gan ferch y melinydd - uchel ei gloch - Barf-fraith, Hirflew-cyn taro ar 'Rympelsiltscin'. Ond tybed faint o blant fydd yn gyfarwydd â'r gair "mascu", o'r un stori? Trueni na fyddid wedi nodi rhif ar y tudalennau.

Juli Paschalis.

---

o tud 10

yn llenwi'r sgrin a throwsus dyn. Roedd yna fin ar yr actio a'r cynhyrchu a minnau yn glafoerio sudd mint imperials ffresh wrth iddynt gyrraedd y nod dro ar ôl tro.

Ffilm y gallaf eich annog i'w gweld ar bob cyfrif ac y gwn y gwnewch ei mwynhau, nid lleiaf oherwydd y stori sy'n disgrifio menter Iddew o Gymro ifanc yn achub ffrils y ffyrm o bwll annwfn mewn ffordd ymarferol drachwantus.

Mae 'na un nodyn trist ar ddiwedd y pwt yma o adolygiad, sef y bwriad sydd ar droed i newid y pictiwrs enwog hwn o'r lle sy'n darparu ar fy nghyfer i a'm tebyg (psst missus) i fod yn lle mwy moethus ar gyfer teip Glyndŵr Rubenstein.

Rhaid achub y 'Prince of Wales' - y fo a'i Willy bach! Cysylltwch â Blwch 69 'Y Dinesydd'.

---

CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU
Dathlu 70ain Penblwydd

R.S. THOMAS

Theatr y Sherman, Heol Senghennydd, Caerdydd. Nos Fawrth, 17 Mai am 7.30 o'r gloch.

- DARLLENIAD gan R.S. Thomas
- FFILM enwog John Ormond, Priest and Poet
- ~~hefyd, stondin lyfrau a~~ seremoni gyflwyno

Tocynnau: £3.00, gostyngiadau i £2.00
Swyddfa Docynnau: Caerdydd (0222) 30451

# COLOFN
## Shân Emlyn

O dro i dro mae rhywun yn cael y cwestiwn yma i'w ateb. Pe tae raid i chi golli un o'r pum synnwyr, p'run ddewisech chi? Cwestiwn cwbwl amhosibl i'w ateb – allai ddim dirnad byw mewn tywyllwch llwyr a gwaeth fyth am a wn i fyddai byd o ddistawrwydd llonydd. Ond wyddoch chi beth fuasai'n gas gen i ei golli? Yr hyn garwn i ei gynnwys fel y chweched synnwyr – a hwnnw yw, byd y dychymyg. O golli un neu fwy o'r pum synnwyr ar y chweched synnwyr yma bydda raid tynnu arno am gynhaliaeth. Fe'i caf hi'n hawdd iawn i lithro ac ymgolli'n llwyr ym myd y dychymyg, a phrofi'r synhwyrau i gyd ynddo.

'Yn fy mreuddwydion, gan-
 waith crwydrais i
Dy fryniau a'th ddyffryn-
 oedd, 'mlaen ac ôl.'

medd Irma yn ei soned i Gymru, ym myd y dychymyg yr oedd hithau wrth lunio'r soned honno. Treuliaf innau gryn amser yn y byd hwnnw, ond y mae'n fyd heb amser, gallwch ail fyw oriau mewn un fflach.

Dathlodd Owen a finna ein priodas arian fis diwetha, a dyna i chi grwydro a wnes i. Cefais fy hun yn ail fyw cwmni a golygfeydd a ddaeth imi o gilfachau pell y cof. Darganfyddais y gallaf ddal i glywed lleisiau fy nwy nain, fy rhieni a ffrindiau bore oes. Llwyddais i gerdded yr hen Gob a mynd draw at Garreg yr Imbill – ia,a hyd yn oed glywed oglau mwll harbwr Pwllheli pan fo'r llanw allan. Gwelwn y Wyddfa a'i chriw. Dyna brofi go iawn "a'm dychymyg yn drên" a go iawn yr ocheniad "a dyma fi yno". Cefais wib i Benmount, ac mae i hwnnw ei arogl, gallwn deimlo caledwch y seddau a chyfri, fel y byddwn pan fyddai'r bregeth yn sych, gyfri

pibau'r organ hardd – ia yr un y rhif o gyfri o'r chwith i'r dde neu o'r dde i'r chwith.

Pleser pur oedd cael dathlu ein priodas arian yng nghwmni teulu a ffrindiau a gwn y rhydd fy nychymyg gyfle imi ail fyw'r profiad hwnnw hefyd fel holl brofiadau'r gorffennol.

Cyfaredd cof a'u ceidw, un
 ac oll,
Y dyddiau dedwydd nad ânt
 fyth ar goll.

GŴYL IFAN, MEHEFIN 17eg – 19eg, 1983

Erbyn hyn mae Gŵyl Ifan yn lled adnabyddus i bawb sy'n byw yn y brifddinas. I'r rhai hynny ohonoch sydd heb ddod eto i Nantgarw ar ddydd Sadwrn yr ŵyl, rhaid i'm ddweud eich bod wedi colli ar gyfle i weld un o olygfeydd unigryw'r wlad erbyn hyn, sef dros 200 o ddawnswyr gwerin Cymru yn ymgynnull i gyd-ddawnsio a'r mwyafrif yn eu gwisgoedd gwerin. Nid oes gŵyl yn debyg iddi yn y wlad, yn wir nid wyf yn sicr os na ellir dweud yr un peth am Brydain ben baladr. Gŵyl o ddawnsio yn unig yw Gŵyl Ifan, wedi'r cyfan Ioan Fedyddiwr yw nawdd sant y dawnswyr a phurion yw cadw'r achlysur i'r rhai a'u doniau yn eu traed.

Cymaint fu llwyddiant yr ŵyl yn y gorffennol fel y bu rhaid eleni ei ehangu i gynnwys gweithgareddau ar y nos Wener a'r bore Sul. Ar y nos Wener cynhelir 'digwyddiad' yng Ngwesty'r Crest yng nghanol y ddinas. Noson hollol anffurfiol gyda'r cwmniau gwâdd yn dangos eu doniau, a bydd croeso i unigolion ymuno yn yr hwyl. Gan fod nifer o'n gwesteion yn aros yn y Crest mi fydd mynediad i'r noson trwy docyn yn unig. Ar fore Sul cynhelir gweithdai, eto yn y Crest gydag hyfforddwyr profiadol yn barod i dywys y clunhercyn mwya ffwndrus drwy rhai o gymhlethdodau'r ddawns.

Mi fydd yr ŵyl ar ddydd Sadwrn yn dilyn ei phatrwm arferol. Dechrau am 10.30 y bore gyda gorymdaith drwy strydoedd y ddinas a dawnsio yno o 11.00 tan 12.30. Ar ôl cinio yn y castell mi fydd y criw yn rhannu i ddawnsio mewn gwahanol safleoedd o gwmpas parciau'r ddinas. Wedyn teithio i Nantgarw erbyn 4.00 y prynhawn i gyd-ddawnsio tan 6.00. Gorffennir y dydd gyda Thaplas a gwledd yn Neuadd y Ddinas a gobeithir dechrau gwledda am 7.30.



Gyda'r ehangu ar yr ŵyl yr ydym hefyd yn ffodus iawn eleni o groesawu tri chwmni tramor i'n plaith. Unwaith eto eleni daw Kam Kernewek o Gernyw atom, gwelsom eu doniau a'u kiltiau amrywliw y llynedd. Am y tro cyntaf daw Seit Cluain Mhin o Banteer, Sir Cork, a dawnswyr Trebeurden, Llydaw i ddathlu canol haf yng Nghymru. Daw dawnswyr Caernarfon i'r ddinas ynghyd â Pharti Offa, cwmni o Wrecsam sydd yn dechrau gwneud enw iddynt eu hunain ar hyd y gororau. Bydd dawnsio ysgafndroed Tawerin yn cael ei arddangos a thalentau mwyn Treforus. Dyma rhai o'r cwmniau dawnus y gellir eu gweld ar y diwrnod arbennig hwn.

Mae tocynnau ar werth i bob rhan o'r penwythnos a gellir eu harchebu oddi wrth: Mrs. Helen Stickler, 57, Thornhill Rd., Caerdydd (0222) 753179.

OND beth am dreulio penwythnos hollol wahanol yng Ngwesty'r Crest Am £25 cewch aros yn y gwesty am benwythnos yr ŵyl yng nghwmni rhai o ddawnswyr mwyaf dawnus y gwledydd Celtaidd. Cewch deithio yn eu mysg i giniawa yng Nghastell Caerdydd, gwledda yn Neuadd y Ddinas ac ymdrochi yn swyn eu cerddoriaeth ar y nos Wener a'r bore Sul. Ceir y manylion am hyn oll oddi wrth Mrs. Helen Stickler.

COFIWCH FELLY, PENWYTHNOS GŴYL IFAN, MEHEFIN 17eg – 19eg, 1983.

Rhodri Jones.

## MERCHED Y WAWR YN LLYDAW

Rhwng Ebrill 4 a 10 treuliodd tair ohonom o Gangen Caerdydd, ynghyd â rhai eraill o aelodau gogledd a de, wythnos ddiddorol a dedwydd iawn yn crwydro Llydaw. Trefnwyd ein taith gan Gwmni Math, Aberystwyth. Aethom mewn bws cysurus bob cam o'r ffordd a theithio dros y sianel ar longau Fferiau Llydaw.
Ymwelsom â'r lleoedd y byd ymwelwyr i Lydaw yn mynd iddynt - Dinau, Y Mont St. Michel, Carnac, Vannes, Quimper, Morlaix. Arhoswyd yn Rennes (Roazhon) prif-ddinas y wlad am un noson, mewn pentref bychan o'r enw Paillac yn y Morbihan noson arall ac yn Quimper ddwy noson. Yr oedd pob gwesty yn hyfryd o lân a chymen - tri ohonynt yn cael eu rhedeg gan gwmni Ibis sy'n berchen ar dros 70 o westyau.
Buom mewn lleoedd llai hefyd - Pipiriac (sydd yn ddiweddar wedi gefeillio â'r Hendygwyn), la Gacilly (pentref o grefftwyr) ac eraill. Buom o amgylch ffatri bersawr enwog Yves Rocher ger la Gacilly a chael cyfle i brynu eu persawr hyfryd am bris rhatach na'r siopau. Yr oedd y llysiau a'r planhigion gwahanol a ddefnyddid i wneud y gwahanol bersawrau yn hynod o ddiddorol i ni, a da iawn oedd deall bod y cwmni yn cyflogi dros fil o ferched.
Buom yn swpera mewn lleoedd diddorol iawn - un noson yn Ti Kendalc'h (Tŷ Cyfarfod), un o brif ganolfannau diwylliannol Llydaw. Ac wedyn diddanwyd ni gan gwmniau o ddawnswyr ifainc o Lydaw ac Iwerddon. Pinacl y noson oedd cwmni o blant Ysgol Gynradd Gymraeg y Bargoed, dan ofal Eleri Betts, yn dawnsio mor llon nifer o ddawnsiau lliwgar ac yn canu penillion i eiriau telyneg Crwys 'San Malo'. Cawsant fanllefau o gymeradwyaeth y gynulleidfa
Buom, noson arall, mewn Fest Noz (Noson Lawen) a chlywed offerynnau traddodiadol Llydaw - y Bombarde a'r Benion - yn ogystal â lleisiau, yn cyfeilio i'r dawnsiau.
Buom ninnau, y ddwy noson yn canu rhai o'n caneuon ni.
Yr un Din- ag a geir yn Dinas (sef Caer) sydd yn enw tref Dinan ar afon Rance, Gwened (Gwynedd) yw enw Vannes yn y Llydaweg, a Kemper (Cymer) ydyw'r dref a elwir Quimper yn y Ffrangeg. Y mae'r rhain yn drefi hynafol iawn ond yr oedd cerrig enfawr Carnac yn eu lleoedd ymhell cyn adeiladu'r trefi hynny. Cawsom ginio canol dydd un diwrnod mewn bwyty nid nepell oddi wrth y cerrig.
Rhwng y trefi mawr uchod teithiai'r bws trwy wlad amaethyddol, ddi-fwg, trwy Breiz Uhel a Breiz Isel. Yn yr olaf o'r ddwy ran y clywir Llydaweg fwyaf. Ni welsom winwns (nionod) yn tyfu yn ardal Roscoff eithr blodfresych a march-ysgall (artichokes), caeau ar gaeau ohonynt. Aethom trwy Plogoff, y pentref bychan hwnnw a fu'n gwrth-sefyll ac a drechodd ymgais y llywodraeth i godi gorsaf niwclear yn eu hardal; esiampl o oruchafiaeth pobl unedig ac y mae arwyddion yno o hyd yn datgan eu gwrthsafiad. Cawsom ginio yn Locronan ac yna aethom ymlaen i Guimiliau ynghanol gwlad y Calvaires a buom yn gweld un o'r cerfiadau hyn sy'n darlunio hanesion o'r Testament Newydd yng ngharreg y fro. Y mae'r cerfiadau braidd yn amrwd, ond yr oedd y garreg yn galed ac y mae'r gwaith erbyn hyn yn hen. Gwisgodd y cerflunwyr y cymeriadau - Crist a'i ddisgyblion e.e. - yng ngwisgoedd cyfnod y cerflunio a rhoesant i'r cymeriadau yn eu gwaith wynebau rhai o'r pentrefwyr a drigai yn yr ardal.
Ar noson olaf ein taith aethom i un o Ysgolion Meithrin Llydaw yn Santec a chael swper Llydewig 'Kig La Farz' gyda'r aelodau, heb fod ymhell o borthladd Roscoff. Cawsom groeso twymgalon a chlywed am eu gwaith gwirfoddol. Llafuriant yn galed i gasglu arian ymhob dull a modd i redeg yr ysgolion ac i dalu'r athrawon ar yr un raddfa ag athrawon eraill. Cant gymorth yn aml gan eu Cynghorau Bro e.e. benthyca adeiladau. Y maent yn edrych atom ni am ysbrydiaeth ac am batrwm. Rhaid yw eu hedmygu a'u canmol am fod ganddynt gymaint o Ysgolion Meithrin lle dysgir trwy gyfrwng y Llydaweg. Yr oedd yn dda iawn gennym fedru cyfrannu ychydig o arian i'w cynorthwyo ac i brynu tipyn o'r gwin a gynhyrchid ganddynt i godi arian. Y maent yn bobl benderfynol iawn wedi arfer ymgodymu ag anawsterau. Haeddant bob cefnogaeth y gallwn ni ei gynnig iddynt.

Mair Elvet Thomas.

---

## AGOR CEGIN CAPEL BETHLEHEM, GWAELOD Y GARTH

Trwy gymorth gwasanaeth syml o weddi ac emyn yr agorwyd yn swyddogol ddrws y gegin newydd yng Nghapel Bethlehem, Gwaelod y Garth.

Gyda'r agoriad swyddogol yma y daeth i ben sawl blwyddyn o ymgyrchu o wahanol ddull a modd ar ffurf arwerthiannau, nosweithiau coffi a ffeiriau gwanwyn a hydref i godi arian fesul ceiniog a phunt ar gyfer ail wampio ac ail adeiladu'r festri a'r gegin.

Bellach gall Capel Bethlehem ymfalchio ac ymffrostio fod ganddo'r cyfleusterau mwyaf modern a defnyddiol o holl gapeli ac eglwysi'r cylch, y cyfan wedi ei ddodrefnu, ei oleuo a'i garpedu yn hynod ddeniadol.

Mae'r cyfan yn adlewyrchu hyder y gweinidog, y Parchedig Rhys Tudur, a'r diaconiaid yn nyfodol yr eglwys, ac yn brawf pendant o ddyfalbarhad a ffyddlondeb yr aelodau hwythau i'w heglwys a'u gweinidog. Ewch yno i weld trosoch eich hunain - cewch groeso twymgalon a phaned yn y fargen!

## PRIFYSGOL CYMRU

Gwahoddir ceisiadau am y swydd o Glerc/Teipydd yng Nghanolfan Dysgu Cymraeg y Brifysgol, 22 Park Place, Caerdydd. Cyflog ar Raddfa 2, £4,084 - £5,015. Dylai'r ymgeiswyr fod yn ddwy-ieithog, Cymraeg a Saesneg, ag yn medru teipio yn y ddwy iaith. Manylion pellach a ffurflen gais i'w gael gan y Cofrestrydd, Cofrestrfa'r Brifysgol, King Edward V11th Ave., Parc Cathays, Caerdydd CF1 3NS. Ceisiadau erbyn dydd Gwener, Mai 6, 1983

## TAITH I'R DWYRAIN

Dros Wyl y Nadolig a'r flwyddyn newydd, cefais wahoddiad i dreulio mis yn y dwyrain pell - profiad arbennig o ysgogol a diddorol i mi na fu erioed o'r blaen mor bell oddi cartref nac erioed yn y trydydd byd.

Macau, Hong Kong, Gwangchow (Canton) a Gweilin oedd y mannau pwysicaf a welais yno ac yn y brifysgol ar ynys Taipa, cyfagos â Macau arhosais yn bennaf. Bum yn ffodus i gwrdd â Tseineaid, brodorion o Hong Kong a Macau a oedd yn ffrindiau i'm mab yng nghyfraith gan ei fod yn dysgu caitoreg ganddynt er mwyn osgoi ynysu ei hun yn y cylch ewropeaidd a'i naws trefedigaethol nawdd-ogol.

Merch ifanc o Hong Kong a'n croesawodd yno oddiar yr awyren a'n harweiniodd i dŷ bwyta gwbl Tseineaidd a'n tywys trwy y menu anarferol. Roedd yn ein croesawu gyda anrhegion, er na fum erioed yn ei gweld o'r blaen - diwyll-iant anrhegu sydd yma. Yn y tŷ bwyta ysblennydd wedi ei addurno mewn coed ac aur lliwiau sy'n symbol o lawenydd i'r Tseineaid, bordydd crwn gyda lle i 8 neu 10 o bobl a geir a daw gweinyddwr o gwmpas gyda llieiniau cynnes gwlyb i olchi'n dwylo cyn cychwyn ar y danteithion niferus - un dysgl ar ôl y llall heb drefn arbennig a phawb yn cymeryd dros ei hunan yn ôl ei ddymuniad.

Wedi gadael dinas gyffrous liwgar swnllyd Hong Kong a'i siopau moethus ochr yn ochr a bywyd y stryd llawn o stondinau bwyd, dillad, perlau, camerau a'r ceir dibendraw, braf oedd croesi'r bae mewn stemar - tua 40 milltir i Facau. Golygfeydd hyfryd ar y daith - lliwiau oren a phorffor y machlud a gwyrddai tywyll llethrau serth coediog yr ynysoedd niferus ar enau afon Perl, a'r junks gyda'i hwyliau celfydd yn fflachio goleuadau coch neu gwyrdd yn y gwyll.

Naws cyfandirol ewropeaidd sydd i Facau gyda eglwysi catholig baroque o'r deunawfed ganrif (gan fod y Portiwgeaid wedi bod yma oddiar 1557) ochr yn ochr a themlau Tseineaidd, yr adeiladau cyfoes a'r tai sianti yn agos i'r ffin rhwng Macau a Tseina. Roedd gwesty tawel adfeiliol ei olwg yn cynnig "tiffei" inni yno! Er mai araf oedd hynt y bywyd yma, wrth gymharu â Hong Kong, llifeiriodd y strydoedd cul gan bobl, tacsis, beiciau, pediceir a stondinau o bob math - pawb yn ceisio ennill tamaid. Roedd y tlodi yn fwy amlwg yma er bod cardotwyr i'w gweld yng Hong Kong hefyd. Tref y casinos, siopau gwystlo, cyffuriau a phuteiniaeth yw Macau yn ôl rhai a daw heidiau o Tseineaid Hong Kong yma gan nad oes hawl i hapchwarae swyddogol yno dan y drefn Brydeinig.

Ar yr ynysoedd cyfagos Taipa a Coloane y mae gwlad a thraethau hyfryd a chyfle i nofio ar waethaf llygredd yr afon Perl a'r perygl o ddod ar draws cyrff ffoaduriaid a geisia nofio draw o Tseina ar adegau.

Roedd fy nwy daith fer i Tseina yn tanlinellu gwahaniaeth sylfaenol y ddwy gymdeithas - dim hysbysebu, dim goleuadau llachar, dim ceir ond toreth o feiciau a phawb yn mynd o gwmpas ei waith yn hamddenol a siriol. Roedd yr elfen cystadleuol o wasgu arnoch i brynu nwyddau bron yn llwyr absennol ar wahan i un man twristog lle gwerthid souvenirs i dwristiaid er budd y gwerthwr.
Yn gyffredinol roedd yn a amlwg bod y safon byw yn isel ond ni welwyd neb yn newynu neu heb ddillad digonol na chartref o ryw fath, a neb yn cardota. Roedd pawb fel petai yn gweithio mewn carafanau bach - yn y caeau, neu yn y ffatrioedd crochenwaith, llusernau papur a silc a welsom - llawer o waith llaw artistig a nemor dim sŵn peiriannau i glywed. Ychydig o fecaneiddio a welais o gwbl; aredig gyda'r aradr symlaf wedi'i dynnu gan y buffalo.
Yn Gweilin bu llawer o dwristiaid Tseineaidd - man nodedig am ei fynyddoedd rhyfeddol yn codi'n syth i fyny o'r gwastadir a'r afon Li clir fel grisial yn llifo rhyngddynt. Taith ar yr afon a chwcio bwyd eich hunan ar y bordydd bach ar y stemar dros dân golosg oedd uchafbwynt yr ymweliad Yn y parc diwylliant yn Gwan Gwangchow, y theatr draddodiadol Tseineaidd oedd yr atyniad mwyaf poblogaidd a'r arddangosfa aerobatig. Ni ddenwyd llawer gan yr arddangosfa lluniau o weithwyr ymroddedig y bobl - lluniau digon amrwd - efelychiad o ddulliau propaganda Rwsia mi dybiaf.

I mi, taith wefreiddiol oedd hon a braf clywed bod mwy o deithiau rhwng Cymru a Tseina ar gychwyn.

Mair Piette.

## CERDYN POST O SAN FFRANCISCO
gan Leigh Verrill

Ar ôl wythnosau o law, mae hi'n heulog o'r diwedd. Yr wythnos diwethaf, roedd llifogydd yn y cymoedd i'r de ac mae llawer o bobl wedi colli eu cartrefi. Yn y fflat lle rwyn aros, mae'r to yn gollwng trwy'r nos!

Y bore cyntaf, fe ddihunais i a chyn i fi sylweddoli, roeddwn i'n siarad Cymraeg â fy ffrind. Yn y frawddeg nesaf, roeddwn i'n treio esbonio'r un gyntaf - ond yn Gymraeg hefyd! Nawr, mae'n rhaid i fi feddwl cyn agor fy ngheg!
Ond neithiwr, wrth i fi siarad â fy narpar-ŵr dros y ffôn, roeddwn i'n siomedig i sylweddoli bod siarad Cymraeg yn anodd iawn ar ôl dim ond wythnos heb sgwrs. Mae'n hawdd dros ben i golli'r iaith, unrhyw iaith siwr o fod, os nad ydw i'n ei siarad hi bob dydd.

O leiaf, rwyn deall y gair 'hiraeth' yn well nawr. Mae gen i'r teimlad fy mod i wedi gwneud fy mywyd yng Nghymru er taw San Francisco oedd fy nghartref am dros ugain mlynedd. Does dim angen dweud faint dros yr ugain!

Rwyn edrych ymlaen yn fawr iawn at ddod adref i Gymru ym mis Ebrill. Rwyf wedi darganfod bod rhywbeth arbennig wedi digwydd i fi. Rwyn perthyn i Gymru mewn ffordd sy ddim yn bosibl yn yr Unol Daleithiau. Efallai, gan fod Cymru'n fach, mae'n haws i'w charu hi. Er bod trafferthion mawr yng Nghymru, dyw hi ddim fel cenedl yn creu trafferthio i wledydd eraill wrth gredu bod rhaid i'r byd wneud yn union beth mae hi'n ei wneud. Hwyl!

## CYWYDD

Ym mha un yr adroddir hanes manwl carwriaeth Mr. Beard o'r Bynea a Rhydfelen â Miss Lewis o Lysfaen a Glantaf.

Law yn llaw, cyfarch yn llon
yr ydym y cariadon,
y naill o gylch Llanelli,
a'r llall, o le arall hi,
o Gaerdydd; hen gariad yw,
hen lodes annwyl ydyw.
Aôr boi hwn ddaw o'r Bynea, -
a ydyw e'n ddigon da
iddi ac yntau'n weddol
gynefin â'r Felin Fo'l?

Y bardd a ddwed fel y bu
yn ystod gwledd yng ngwesty
'r Parc, Caerdydd; yn gelfydd gaeth
rhoir carîr eu carwriaeth;
modd y rhuthrodd yr athro
fel y gwynt ar hynt un tro
lawr o oerfel Rhydfelen
ar ei feic, (un araf hen
â'i Frwm- Frwm yn glaf o wres),
a thrawo ar athrawes
ddifyrrus lanwedd firain
yng Nglantaf."Lle braf, myn brain",
mynte fe, ac yn y fan
i'w hennill iddo'i hunan
bwrw a wnaeth y brown ei wallt,
ymgiprys an y goprwallt
nêt a chiwt. Ond sut i'w chael?
O'i hoffi, sut i'w chaffael
yn eiddo iddo'n weddus
eiddgar wraig i smwddio'i grys?
Anhyblyg oedd y broblem,
a'r boi galánt, piwr heb glem.

Ond aeth ef i weld ei thad
eleni â chyflenwad
o stwff prin o'r Felin Fo'l
a'i frath yn far-gyfreithiol.
A diawch! - caniatad y dyn
a gafodd, dim ond gofyn
un tro, ac addo iddo'n
ffeineit na fyddai ffynnon
lawn o rin y Felin Fo'l
yn pallu, yn hesb hollol

Ac felly cawn, gyfeillion
annwyl, law yn llaw yn llon,
eu hanfon hwy i wynfyd
llawn miwsig 'Cosmic' o hyd,
i ddeleits tragwyddol ha'
mewn tŷ cain ym Mhontcanna.
Heddiw o weld rhwymo'r ddau
yn un, nid oes i ninnau
ond disgwyl gweled twysged
o ffrwyth yn nhŷ Alun Ffred.
Bydd rhai'n goch, mae'n anochel,
ac o raid fe geir o'u hel
ledflas o'r ddinas ddenol
a blas prin o'r Felin Fo'l.

TAW.

---

Dymunwn yn dda i Catrin a Gary Beard a briodwyd yn ddiweddar yn Heol y Crwys.

---

o dud 4.

Dyma restr gyflawn o'r chwaraewyr rhyngwladol sydd wedi dod o Ysgol Gyfun Rhydfelen -

Roger Davies 1969 (-15)
Leighton May 1972 (-15)
Leighton May 1975 (-19)
Jimmy Lye 1978 (-19)
Ken Thompson 1980 (-19)
Dylan Hughes 1981/82 (-18)
Philip Hope 1982 (-15)
Mark Spiller 1983 (-15)

## LLYTHYRAU

Annwyl Olygydd,

Hoffwn hysbysu pob arweinydd côr o blith darllenwyr eich papur am gystadleuaeth gorawl Ryng-Geltaidd a drefnir yn Brest, Llydaw, ar Fehefin y 4ydd a'r 5ed eleni.
Y mae'r gystadleuaeth yn agored i dri chategori o gôr:

A. Corau S.A.T.B., 30-50 o gantorion;
B. Corau 4 llais cymysg/meibion/merched, 20-30 o gantorion;
C. Corau cymysg, 2,3 neu 4 llais, 20-30 o gantorion

a disgwylir i bob côr ganu dau ddarn.

Cynigir gwobrau o £150 a £300 i ddosbarth A; £100 a £200 i B, a £75 a £150 i C, ac y mae gwobr ychwanegol o £275 ar gyfer canu gwaith gwreiddiol, newydd.

Telir y costau teithio gan y trefnwyr a darperir hostel a phrydau bwyd ganol dydd a hwyr yn rhad ac am ddim.


Am fanylion pellach, sgrifenner at:
Centre Breton d'Art Populaire,
37, bis, rue Victor Hugo,
29200 BREST,
Llydaw/Brittany.

Ar ran y trefnwyr,
DEWI MORRIS JONES,
Llwynderw, Bronant (264).

CANOLFAN YR URDD
HEOL CONWY
TREGANNA
CAERDYDD

TAFLEN

LLYFRAU
RECORDIAU
CASETIAU
CARDIAU



Ar Agor
10.00—7.00 (5.00 Sad)
Ffoniwch Eich Archeb
CAERDYDD 27530

cystadleuaeth - competition
rhywfodd - somehow
rhy goch - too obscene
cod - pocket
ymweliad - visit
llysernau - lanterns
ffoaduriaid - refugees
niferus - numerous
gweinyddwr - administrator
trefedigaethol - colonial
puteiniaeth - prostitution
ymroddedig - dedicated

# Y GOLOFN GAIN gan ARFON

Newydd ddod o Wrecsam i ddilyn cwrs yng Ngholeg Cyncoed y mae Aled Lewis Ifans, ac mae'n dda gennym ei groesawu i'r cylch wrth ddiolch iddo am ei gerdd.

DYLAN
(Yn dilyn ymweliad â chartref Dylan
Thomas yn Lacharn)

Fe'th welaf yn awr
yn troedio traeth y wlad
y buaist mor gyndyn
o gyfaddeg ei gafael arnat.
Dy wallt coch yn un â gwrid
machlud Talacharn.

Er dy ddiwreiddio,
a'th ddallu yn swbwrbia 'Swansea'
nid Llundain oedd yr ateb i'r gwacter oddi mewn.

'Roedd dy galon
yn ôl
yn Sir Gâr Ymneilltuol dy Wncwl,
yng nghynhesrwydd helynt pentrefi amaeth
glannau Tywi,
yn clwydo yng nghorneli tafarndai
dy hen dref hurt
a'i gastell,
nid ar strydoedd soffistigedig y Mumbles.

Yn Fab Afradlon, daethost yn ôl,
heb lacio gafael ar d'afradlonedd,
Ac ar dy ôl i'r Tŷ uwchlaw y foryd swnllyd
daeth yr Awen a fu ar chwâl.

Yn Lacharn
cefaist fod yn ti dy hun,
cefaist lochel i enaid dryslyd
heb bwysau bodloni cynulleidfa
a fynnai sbloet y meddwyn slic-ei-dafod.

'Roedd clod a chlap teithiau'r taleithiau pell
ar un llaw
- y botel a'r 'stafelloedd motel-
ac erwau melyn Fern Hill dan haul Gorffennaf
fythol
ar y llall,
a golwg glir ar goll
yn dy ddiniweidrwydd.

Wrth roi Llaregyb ar y map
daethost adref i Gymru,
a chanfyddaist hedd
yng nghywilydd Cwmdonkin.

Aled Lewis Ifans.

Yng ngwledd briodas Alun Gary Beard, athro bioleg yn Rhydfelen, â Chatrin Lewis o Lysfaen, athrawes yng Nglantaf, cafwyd sawl cyfarchiad barddol i'r ddeuddyn ond ni ddarllenwyd englyn y Dr. Alun Ogwen ac mae'n dda cael ei rannu â darllenwyr y golofn:

Gary a Chatrin Beard

I olygon Biolegydd nid oes
Un dim or ysblennydd
A gwyllt rosyn y gelltydd
O blas ger dinas Caerdydd.

Alun Ogwen

# O'R SEDD GEFN



CWYMP Y CASTELL A CHODIAD GLYNDWR (XX) (Sinema'r 'Prince of Wales'

--------

Gandhi ac E.T. sy'n mynd a bryd y sinemau ynghanol y dref, ond penderfynais i fynd a Petula'r wraig i lawr i'r 'Prince of Wales' i gael ychydig o ddiwylliant corfforol a meddyliol.

Roedd y teitl yn apelio ac yn cynnig rhyw gynhyrchiad a allai fod yn gywaith rhwng Cofiwn a'r Bwrdd Croeso ar gyfer Cestyll '83. Roeddwn hefyd yn awyddus i ail fyw fy mhrofiadau nwydus pan oeddwn yn y coleg - pob pnawn Mercher glawog, pan na fyddai chwaraeon ymlaen, byddem yn mynd yn griw i gael cwmni 'Shady Selena' neu'r 'Naughty Sweedish Chambermaid'.
Gan inni gyrraedd y sinema ychydig bach yn hwyr, a'r ffilm eisioes wedi dechrau, rhaid oedd taflu'r arian o dan y gwydr i'r ddynas gwerthu tocynnau. Dynas arall tu fewn hefo lamp yn ein tywys i'n seddau - sathru traed un, eistedd ar lîn un arall cyn ffendio seddau gwag, a thybio fy mod wrth fynd heibio wedi dal cilwg ar wynebau Hef a Teu yn llewyrch y lamp.
Yn gwbl wahanol i'r disgwyl, nid ffilm yn sôn am hanes y Canol Oesoedd oedd hon, ond trin a thrafod sefyllfa gyfoes yng Nghaerdydd. Cwmni gwerthu dillad isaf merched oedd Cwmni'r Castell Cyf. o ardal Cyn-coed, a hanes dadrithiad y Cwmni hwnnw ydi'r ffilm hon ynghyd â hanes y mab, Glyndŵr Rubenstein, yn rhoi anadl einioes iddynt trwy'i weledigaeth o gynnal gwas-anaeth 'escort' merched a phuteindy. Fel y gellid disgwyl felly, roedd 'na ddigon o fynd a dwad drwyddi draw yn y ffilm, a phen olau a bronnau noethion —

i tud 4.


# 'CAE'R DELYN'
# DOWCH I'R FRO!
## CAE'R DELYN yw'r lle i brynu
***planhigion gorau i'ch gardd.***
***St. Hilari. (Y Bontfaen 2888).***



Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

*Buddsoddiadau Yswiriant Bywyd Pensiynau*

# Y CALENDR

Mai :

2 Gŵyl Fai gyda Dafydd Iwan yng Ngerddi Dyffryn. Dafydd Iwan yn arwain y plant i Gwm Rhyd y Rhosyn. Canu, dawnsio, a Superted, Stondinau amrywiol a bwyd ysgafn. Yn y tŷ os yw yn bwrw glaw. Bws awyr agored yn gadael canol y ddinas am 2 o'r gloch. Prisiau gostyngol i'r rhai â thocynnau. Oedolion: £; Plant Ysgol: 50c. Plant Meithrin am ddim. Tocynnau ar gael yn Taflen, Oriel a thrwy'r Ysgolion Meithrin.

7 Gwibdaith y Cymrodorion

7 Gorymdaith yr Ŵyl Feithrin. Cychwyn o'r Amgueddfa Genedlaethol am 2 p.m.

7 Cyngerdd Côr Philharmonic Caerdydd, yn Neuadd y Brifysgol, Heol Corbett; Mynediad trwy raglen. Pris: £2.50 a £1.50
Emyn o Fawl: Mendelssohn
Dewi Sant: Arwel Hughes
Sanctus: Arwel Hughes (Comisiynwyd gan y Côr)
Artistiaid: Yolande Jones (Soprano); Timothy German (Tenor) (gyda chaniatad Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru)
Eric Roberts (Bariton)

9 Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yng Ngwesty'r Parc am 1 p.m. Prif Westai: Miss Elen Rhys

Mehefin :

6 Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yng Ngwesty'r Parc am 7.30 p.m. Prif Westai: Syr Alun Talfan Davies.

18 Ffair Haf Ysgol Melin Gruffydd, yn yr ysgol, 2 p.m.

25 Ffair Haf Glantaf

Gorffennaf :

4 Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yng Ngwesty'r Parc am 1 p.m. Prif Westai: Dr. Ilid Anthony

Medi :

9 Noson Gaws a Gwin yng ngofal Ann a Ken Innes yn Ysgol Glantaf. Disco yng ngofal Hywel Gwynfryn. Yr elw at Ysbyty Harefield, 7.30 - 11.00 p.m.

# LLYTHYRAU

Annwyl Ddarllenwyr,

Ysgrifennaf atoch ar ran Mudiad Ysgolion Meithrin i ofyn am eich help a'ch cefnogaeth parthed Apêl Genedlaethol yr ydym yn ei lansio fel rhan o weithgareddau ein Gŵyl Feithrin, Mai 7fed-14eg, 1983.

Thema ein Gŵyl yw 'Anifeiliaid Arch Noa', ac yn gysylltiedig â hyn dymunwn gasglu llond gwlad o anifeiliaid tegan meddal i'w cyflwyno i Adrannau Plant Ysbytai Cymru. Nid tegannau siop sydd eu heisiau ond rhai wnaed gan y cyhoedd ei hun, yn famau, tadau, teidiau, neiniau, a phlant; hynny yw, unrhyw un sydd am estyn cymorth i blant bach mewn ysbytai. Ga' i bwysleisio mai tegannau anifeiliaid sydd eu heisiau yn unol â thema ein Gŵyl Feithrin.

Cynhelir yr apêl rhwng Mai'r 7fed a Gorffennaf 14eg, sef diwedd tymor y Cylchoedd Meithrin a bydd ein Cylchoedd yn fodlon derbyn a gofalu am eich rhoddion unrhyw bryd yn ystod y cyfnod hwn.

Byddwn yn casglu ynghyd yr holl degannau ar gyfer Arddangosfa arbennig ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llangefni a bydd croeso i unrhyw un droi i mewn atom i weld y cynnyrch. Yna, ym mis Medi fe rennir y tegannau yn gyfartal rhwng pob sir er mwyn eu dosbarthu i'r ysbytai.

Erfynniwn yn daer am eich cefnogaeth i'r ymgyrch deilwng hon.

Yn ddiffuant,
J. BRYAN JONES,
Cyfarwyddwr.

CYNGOR HENOED CYMRU

Y mae Cyngor Henoed Cymru yn bwriadu trefnu Cwrs ar gyfer rhai sy'n gofalu am hen bobl, neu unrhyw un arall sydd â diddordeb i fod yn wirfoddolwyr i gynorthwyo'r hen. Disgwylir i'r cwrs gael ei gynnal am un noson yr wythnos am 10 neu 12 wythnos yng Nghanolfan Gymraeg Glantaf, wedi i'r ysgol ail gychwyn ar ôl gwyliau'r haf. Dibynna y trefniant ar y nifer fydd yn dangos diddordeb. Gobeithir trefnu'r cwrs fel na bydd costau i'r mynychwyr.

Yr ydym hefyd yn ystyried y priodoldeb o gychwyn Clwb Prynhawn i bensiynwyr. Cawsom awgrym eisoes y dylem fynd ati i drefnu cyfarfod wythnosol ar gyfer y rhai hŷn o blith Cymry Caerdydd.

Byddaf yn ddiolchgar os gwnaiff y rhai sydd â diddordeb yn y naill drefniant neu'r llall gysylltu â mi yn ystod yr wythnosau nesaf fel y gallwyf ystyried y cynlluniau uchod. Os profir fod yna gefnogaeth, af ati i drefnu'r cyfryw.

D. Haydn Thomas,
Cyngor Henoed Cymru,
1, Park Grove,
Caerdydd. CF1 3BJ.
Rhif Ffôn: 371821

Annwyl Gyfaill,

Mae'n fwriad gan Y Lolfa i gyhoeddi llyfr o'r enw "Câr Dy Gar". Prif bwrpas y llyfr fydd cynnig cynghorion syml ac ymarferol ar beth i'w wneud pan mae'r car yn torri lawr.


Bydd y llyfr yn cynnwys adran fecanyddol, ond eich cyfraniad CHI fydd y rhan helaethaf ohono - geiriau o gyngor ac o rybudd ar sail, efallai, ambell i brofiad chwerw!

Gwahoddwn chi felly i anfon cyfraniad rhwng 100 a 1,000 o eiriau at y cyfeiriad isod erbyn 1 Mehefin, 1983. Croeso i luniau hefyd.

Bydd Y Lolfa'n gwobrwyo'r deg gorau, ond eich prif wobr fydd cael cyfrannu i'r llyfr cyntaf gwreiddiol Cymraeg a Chymreig ar drin car. Dewch a nhw!

WIL SAM
Tyddyn Gwyn,
Rhoslan,
Cricieth,
Gwynedd.
Ffôn: 076671/2541

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn    RHIF 32



AR DRAWS:

6. Un ar ben y twr a wêl y gog cyn iti sylwi fod yr awel wedi newid (7,1,5)
8. Murddun a gawd o dynnu'r farchnadfa i lawr (6)
9. Dyfeisiadau y mae dyn yn eu troi i'w ddibenion ei hun (8)
10. Bydded iddo fynd (3)
11. Merch sydd yn blodeuo yn gynnar (6)
12. Camp y dynwaredwr o bosib (8)
14. Blaidd am dyneru ei natur fel yr awel (7)
16. Dylanwad y gwâr fam ar ei theulu (7)
20. Hafal (8)
23. Nid y llyngesydd ond enw arall ar Llanfabon (6)
24. Blaenoriaid o bob enwad yn cael anrhydedd (3)
25. Difyrwyr sy'n gallu bod yn drwynaidd (8)
26. Symud Dai yn lletchwith o blith y brechiadau i gael trefn ar yr ordro (6)
27. Bois y colofnau? (13)

I LAWR:

1. Ffordd sydyn i sgorio tri (3,5)
2. Byddai yn colli awch(8)
3. Darn bach o bren y gellir ei fwyta (7)
4. Y giang amheus (1,5)
5. Y ffordd ferraf o ddweud nad oes undyn yn gwybod (3,3)
6. Pwyllgor y papur hwn(13)
7. Am ychydig o amser (4,6,3)
13. "---iaid o'r eigion" (3)
15. "Pe meddwn --- Periw"(3)
17. Tywysoges a ffrwythau duon bach —— braidd yn dwp (8)
18. "Poni ----- --- hynt y gwynt a'r glaw?" (5,3)
19. 150 awr mewn caeadau(7)
21. Heliwr ednod (6)
22. "------ Ef y gwnaethpwyd pob peth" (6)

DATRYSIAD RHIF 31

Ar Draws: 1. BOB CAM; 5. YMDROCHAI; 9. CARIADON; 10. UNIAWN; 11. TALWRN Y BEIRDD; 13. CYLCH; 14. EGLWYSIG; 17. ABERGELE; 18. GINI; 20. CYHOEDDUSRWYDD; 23. NWYDUS; 24. NODWEDDID; 25. ADRANNAU; 26. IRDDAIL.

I Lawr: 2. OLAF; 3. CRINTACHWR; 4. MYDYLU; 5. YN NHRAED EI SANAU; 6. DAUDDYBLU; 7. ONIDE; 8. ARWERTHIANT; 12. CYDBWYSWYD; 15. YMGUDDFEYDD; 16. CERDDASWN; 19. LLWYDNI; 21. OEDFA; 22. LILI;

**HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD 561788**

# LLONGYFARCH

Mae Clwb Cymric yn falch o gyhoeddi eu bod wedi cael hyd i golgeidwad newydd - bydd yn ymddangos gyntaf yn lliwiau'r Clwb yn y flwyddyn 2001 pan fydd yn 18 mlwydd oed. Llongyfarchiadau i Dewi a Heulwen, Llanilltyd Faerdre ar enedigaeth mab, Deri Aled ar Ebrill 18fed. Da iawn Capten.

Cyrhaeddodd Guto Siôn Humphreys ddeuddydd yn hwyr i'w groesawu i'r byd yn ein rhifyn olaf. Mae'r croeso yr un mor gynnes, ac mae Siwan a Gwennan wrth eu bodd gyda'u brawd bach newydd. Yn anffodus ni fydd Guto efo ni yn hir yn y Brifddinas gan fod ei rieni, Nan a Siôn Humphreys, wedi penderfynu symud yn ôl i'r Gogledd. Byddant yn ein gadael yn ystod mis Mai. Dymunwn yn dda iddynt fel teulu yn eu cartref newydd yn Llanrug. Bydd colled ar eu holau o lawer cylch.

Llongyfarchiadau i Siân ac Emlyn Penny Jones ar enedigaeth Carys Mair, chwaer fach i Sioned.

Llongyfarchiadau hefyd i Juli a Leo Pascalis ar enedigaeth Manon, chwaer i Carys.

EFEILLIAID

Llongyfarchiadau i Gwen a Gareth Edwards, Y Waun, ar enedigaeth efeilliaid ar Fawrth 31, Carys Meriel a Lisa Jane, chwiorydd i Gethin ac wyresau i Mr. a Mrs. Tom Ellis James, Penylan (aelodau Heol y Crwys).
Mae Gareth yn dysgu yng Nghaerffili a bu Gwen yn dysgu Cymraeg yn Ysgol Ton yr Ywen.

Ystafell ar lôg mewn fflat eang a chysurus, Pencisely Road. Rhannu gydag un gŵr ifanc. Telerau chwerthinllyd o râd. Bargen i rywun. Ffoniwch Dafydd, 44466.

Dylid anfon holl ddeunydd ar gyfer rhifyn MEHEFIN at Mrs. N. Couch, 2, Crystal Glen, Y Mynydd Bychan, Caerdydd (753625) erbyn yr 20fed o Fai.